

# NID YW CYMRU AR WERTH!



Mae gan bawb yr hawl i gartref yn eu cymuned. Ond mae llywodraethau San Steffan a'r Senedd dros y degawdau wedi trin tai fel eiddo i wneud elw, yn lle cartrefi, a blaenoriaethu cyfalaf yn lle cymunedau. Mae'r canlyniadau wedi bod yn drychinebus i bobl gyffredin Cymru, ein cymunedau a'r Gymraeg – ac maen nhw'n gwaethygu.

Nid oes rhaid i'r sefyllfa fod fel hyn. Gyda'r camau polisi iawn, gallwn sicrhau cartref i bawb, a chymunedau cryf, Cymraeg ymhob rhan o'r wlad.

## Ein galwadau ar Lywodraeth Cymru

### Cymryd camau brys yn cynnwys:

- Cyflwyno treth ar dwristiaeth a buddsoddi'r arian a godir mewn cymunedau lleol
- Cyflwyno uwch-dreth ar ail dai ac ar elw landlordiaid i fuddsoddi mewn dod â thai gweigion ac ail dai yn ôl i ddefnydd cymunedau lleol
- Rheoleiddio AirBnB a chyflwyno treth ar dai sy'n cael eu gosod trwy AirBnB
- Cau manau gwan a bylchau yn y gyfraith sy'n caniatáu i bobl osgoi trethi
- Ei wneud yn ofynnol i wneud cais cynllunio am newid dosbarth tŷ o fod yn gartref parhaol i ail gartref neu lety gwyliau, yn cynnwys AirBnB
- Cyflwyno gwaharddiad parhaol ar droi allan di-fai a chryfhau hawliau tenantiaid
- Cyflwyno graddfeydd uwch o Dreth Trafodiadau Tir ar eiddo a brynir fel ail dai neu lety gwyliau
- Diwygio'r cynllun Cymorth i Brynu er mwyn canolbwyntio ar helpu pobl ar gyflogau arferol a'u galluogi i brynu tai sydd eisioes yn eu cymunedau, nid dim ond tai newydd mewn stadau ar y cyrion

### Cyflwyno Deddf Eiddo fydd yn cynnwys:

- Gosod cap ar ganran yr ail dai neu dai haf mewn unrhyw gymuned
- Sicrhau bod tai gwag a thai presennol yn cael eu defnyddio cyn datblygu o'r newydd
- Newid y diffiniad o dai fforddiadwy a rheoli prisiau tai a rhent fel eu bod yn fforddiadwy i bobl ar incwm isel a chyflogau lleol
- Cyfarwyddiadau mwy cadarn ac eglur ar gynnal asesiadau effaith iaith
- Datganoli grymoedd cynllunio, gan gynnwys gosod targedau tai, i'r lefel fwyaf lleol sy'n briodol, a gwneud cynllunio ieithyddol yn orfodol er mwyn sicrhau bod datblygiadau yn cael effaith gadarnhaol yn hytrach na negyddol
- Rhoi cymorth penodol i bobl ifanc aros yn eu cymunedau

### Yn ogystal, galwn am:

- Ddychwelyd y stoc dai cymdeithasol yn ôl i ddwylo cyhoeddus, a sicrhau bod y mwyafrif o dai newydd mewn dwylo cyhoeddus
- Ddatblygu cynllun strategol ar gyfer tai a thwristiaeth mewn ardaloedd gwledig

## Mae'r grym gyda ni i fynnu newid – ymunwch â ni!

[cymdeithas.cymru/ymaelodi](https://cymdeithas.cymru/ymaelodi)

**Cyfrannwch at gostau'r ymgyrch yn:**  
[cymdeithas.cymru/cyfrannu](https://cymdeithas.cymru/cyfrannu)

